

Mesur arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau)

Memorandwm Esboniadol

Memorandwm Esboniadol

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi'i baratoi gan Gomisiwn y Cynulliad ac mae wedi'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Datganiad ar Gymhwysedd Deddfwriaethol

Yn fy marn i, byddai darpariaethau *Mesur arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau)*, a gyflwynwyd gen i ar 15 Hydref 2009 o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Comisiwn y Cynulliad
Y Gwir Anrh. yr Arglwydd Elis-Thomas
Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig

15 Hydref 2009

Cynnwys

Rhan 1: Cefndir a Diben y Mesur Arfaethedig

1. Rhagymadrodd	3
2. Y Cefndir Deddfwriaethol	5
3. Diben ac Amcanion Polisi	6
4. Y Trefniadau Cyfredol a'r Cyd-destun Deddfwriaethol	8
5. Ymgynghori gan y Panel	15
6. Pŵer i wneud Is-ddeddfwriaeth	17
7. Cymhwysiad Tiriogaethol	17

Rhan 2: Aseiad Effaith Rheoleiddiol

8. Opsiynau	18
9. Amcangyfrif o'r Costau	20

Rhan 3: Nodiadau Esboniadol 23

Rhan 1: Cefndir a Diben y Mesur Arfaethedig

1. Rhagymadrodd

1.1 Ym mis Awst 2008 sefydlodd Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol y Panel Adolygu Annibynnol (“y Panel”) i edrych ar bob agwedd ar y cymorth ariannol sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad; gan gynnwys cyflogau a lwfansau teithio, pensiynau, llety, swyddfeydd etholaeth a staff cymorth. Aeth y Panel ati i wneud y canlynol:

- adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer cymorth ariannol Aelodau'r Cynulliad ac edrych ar yr arferion gorau;
- cymryd tystiolaeth ynghylch materion perthnasol;
- ymgynghori â chyrff perthnasol a'r rhanddeiliaid;
- 1.1 cynhyrchu set o argymhellion wedi'u seilio ar y dystiolaeth sy'n cynnwys egwyddorion a fydd yn sicrhau proses deg, gyfiawn a thryloyw ar gyfer cymorth ariannol Aelodau'r Cynulliad.

1.2 Cafodd Adroddiad y Panel, Yn Gywir i Gymru¹ (“adroddiad y Panel”) ei gyhoeddi a'i gyflwyno i Gomisiwn y Cynulliad ym mis Gorffennaf 2009 ac roedd ynddo 23 o brif argymhellion ac 85 o argymhellion ategol. Cytunodd Comisiwn y Cynulliad â'r argymhellion yn llawn a gwnaeth y Llywydd ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Gorffennaf 2009.² Mewn ymateb i'r datganiad, cytunodd pob plaid ag argymhellion yr adroddiad. Dywedodd y Llywydd:

Ar yr argymhellion mae'r panel yn argymhell gweithredu arnynt ar unwaith, a lle mae pwerau cyfreithiol eisoes gan y comisiwn, ni fyddwn yn oedi. Mae'r prif weithredwr a'i staff eisoes wedi dechrau ar drefn i weithredu'r argymhellion hynny cyn gynted â phosibl. Ar gyfer nifer fawr o'r argymhellion, bydd angen gwaith paratoi sylweddol cyn y gellir gweithredu'r newidiadau, fel ag y mae'r panel yn ei gydnabod yn yr adroddiad. Mae'r comisiwn, serch hynny, yn bwriadu dechrau ar y gwaith hwn ar unwaith, i'w gyflawni erbyn mis Mai 2011.

1.3 Un o'r argymhellion allweddol yw y dylai'r cysylltiad awtomatig rhwng tâl Aelodau'r Cynulliad a thâl Aelodau Seneddol gael ei dorri ac y dylai Corff

¹¹ Panel Adolygu Annibynnol, [Yn Gywir i Gymru, Adolygiad annibynnol o'r trefniadau presennol ar gyfer rhoi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad](#), Gorffennaf 2009.

² Cofnod y Trafodion, [Datganiad ar Adroddiad y Panel Adolygu Annibynnol, Cyfarfod Llawn, 8 Gorffennaf 2009](#).

Adolygu Annibynnol statudol gael ei sefydlu i bennu lefelau tâl at y dyfodol ac i fonitro ac adolygu'r cymorth ariannol arall gan gynnwys lwfansau teithio, pensiynau a chymorth swyddfa.

1.4 Mae adroddiad y Panel hefyd yn argymhell y dylai Comisiwn y Cynulliad baratoi a chyflwyno Mesur Cynulliad cyn gynted ag y bo'n ymarferol, i sefydlu Corff Adolygu Annibynnol statudol o'r fath i wneud penderfyniadau ynghylch pob agwedd ar gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad.

1.5 Yn ei ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn, dywedodd y Llywydd:

Bwriadwn ddechrau gweithio ar unwaith ar Fesur arfaethedig y comisiwn ac, yn dilyn cytundeb y comisiwn ddoe, byddaf, fel yr Aelod cyfrifol o dan Reol Sefydlog Rhif 23.6, yn cyflwyno'r Mesur arfaethedig i'r Cynulliad yn yr hydref, i sefydlu'r corff adolygu annibynnol a'r dull systematig, gwrthrychol o bennu cyflogau a argymhellodd y panel.

1.6 Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi'i baratoi yn unol â Rheol Sefydlog 23.18. Mae'n nodi cefndir y darpariaethau yn y Mesur arfaethedig Comisiwn, sef Mesur arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 20— ac yn esbonio hyd a lled y Mesur arfaethedig.

2. Y Cefndir Deddfwriaethol

- 2.1 Mae cyd-destun cyfansoddiadol y cynnig hwn wedi'i nodi yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r Ddeddf yn darparu mecanwaith i wella pwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ganiatáu iddo wneud Mesurau os oes ganddo'r 'cymhwysedd deddfwriaethol' (hynny yw, y pŵer) i wneud hynny.
- 2.2 Mae Rheol Sefydlog 23.5 yn datgan y cyfeirir at Fesur arfaethedig a gyflwynir gan y Comisiwn fel "Mesur arfaethedig Comisiwn" ac mae Rheol Sefydlog 23.6 yn datgan mai'r Aelod sy'n gyfrifol am Fesur arfaethedig Comisiwn yw'r aelod o'r Comisiwn sydd wedi'i awdurdodi gan y Comisiwn. Fel y nodwyd yn ei ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Gorffennaf 2009, y Llywydd yw'r "Aelod sy'n gyfrifol".
- 2.3 Darperir y cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer y Mesur arfaethedig hwn ym Mater 13.3 o Faes 13: Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006:

Mater 13.3:

Darpariaeth ar gyfer talu cyflogau, lwfansau, pensiynau ac arian rhodd i Aelodau'r Cynulliad, Prif Weinidog Cymru, unrhyw un o Weinidogion Cymru a benodir o dan adran 48, y Cwnsler Cyffredinol ac unrhyw un o Ddirprwy Weinidogion Cymru neu mewn perthynas â hwy ac mewn cysylltiad â'u talu.

3. Diben ac Amcanion Polisi

3.1 Ar hyn o bryd, Comisiwn y Cynulliad sy'n gyfrifol am benderfynu ar lefel cyflogau a chymorth ariannol arall Aelodau'r Cynulliad. Ers i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gael ei sefydlu ym 1999, mae cyflog Aelod Cynulliad wedi'i bennu fel cyfran o gyflog Aelod Seneddol. Felly, pan yw cyflogau Aelodau Seneddol wedi'u codi, mae cyflogau Aelodau'r Cynulliad wedi'u newid yn unol â hynny. Yn yr un modd, mae cyflogau deiliaid swyddi ychwanegol yn y Cynulliad megis y Llywydd ac Arweinydd yr Wrthblaid a chyflogau Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cysylltu â swyddi penodol yn San Steffan. Mae adroddiad y Panel yn argymhell y dylai'r cysylltiad uniongyrchol â San Steffan ddod i ben cyn gynted â phosibl ac y dylai gael ei ddisodli gan system annibynnol i bennu cyflogau Aelodau'r Cynulliad a deiliaid swyddi ychwanegol a'u cymorth ariannol arall. Roedd y Panel o blaid creu Corff Adolygu Annibynnol statudol.

3.2 Mae argymhelliad 12 o adroddiad y Panel yn datgan:

Dylai Comisiwn y Cynulliad baratoi a chyflwyno Mesur Cynulliad cyn gynted ag sy'n ymarferol, i sefydlu Corff Adolygu Annibynnol statudol i wneud penderfyniadau mewn perthynas â'r materion a restrir isod. Rôl y corff hwn yw:

- i) gwneud penderfyniadau ynghylch pob agwedd ar gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad
- ii) ystyried cyfrifoldebau newidiol yng ngwaith Aelodau'r Cynulliad
- iii) adolygu effeithiolrwydd ac effaith y broses uwchraddio
- iv) ymdrin ag unrhyw faterion 'ad hoc'

Dylid nodi y dylai aelodau'r Corff hwn fod yn annibynnol ar y Cynulliad ac y dylai fod ganddynt arbenigedd perthnasol. Byddai dethol gan Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad (fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu), yr Archwilydd Cyffredinol ac Ymgynghorydd Annibynnol i'r Comisiwn yn ffordd briodol o fynd ati.

3.3 Diben y Mesur arfaethedig, felly, yw sefydlu Bwrdd Taliadau annibynnol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Bwrdd"), trosglwyddo i'r Bwrdd swyddogaethau penderfynu ar daliadau Aelodau'r Cynulliad, Prif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol a Dirprwy Weinidogion

Cymru, a dibenion sy'n gysylltiedig â hynny. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys pennu ac adolygu cyflogau Aelodau'r Cynulliad, eu lwfansau a'u pensiynau. Byddai hyn yn mynd â'r cyfrifoldeb dros y swyddogaethau hyn oddi ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, sef swyddogaethau sydd wedi'u rhoi ar hyn o bryd i Gomisiwn y Cynulliad.

- 3.4 Bydd y Bwrdd hefyd yn gwneud penderfyniadau mewn perthynas â thaliadau i ddeiliaid swyddi ychwanegol heblaw'r rhai y cyfeirir atyn nhw ym mharagraff 3.3; er enghraifft, y Llywydd, y Dirprwy Lywydd, Comisiynwyr y Cynulliad, arweinwyr y gwrthbleidiau a chadeiryddion pwyllgorau.
- 3.5 Mae'r Mesur arfaethedig yn darparu ar gyfer sefydlu'r Bwrdd ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd roi sylw i argymhellion y Panel pan fydd yn cyfarfod am y tro cyntaf.
- 3.6 Yn ôl y Panel, y mae ei ganfyddiadau wedi'u derbyn gan Gomisiwn y Cynulliad, amcan sefydlu corff o'r fath yw sefydlu "proses agored a thryloyw" ar gyfer penderfynu ar gyflogau Aelodau'r Cynulliad, proses a fydd yn meithrin "ffydd y cyhoedd".³
- 3.7 Mae adroddiad y Panel yn cynnwys trafodaeth hir ar gwestiwn dyfeisio mecanwaith priodol i bennu cyflog cynrychiolwyr etholedig yn San Steffan a'r tu hwnt ac ystyriodd ystod eang o dystiolaeth. Yn benodol, cytunodd y panel â'r dull a nodwyd gan Syr John Baker o'r Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion yn ei adolygiad yn 2008 ar dâl a lwfansau Aelodau Seneddol ("adroddiad Baker"),⁴ pan ofynnwyd iddo nodi mecanwaith annibynnol i benderfynu ar eu cyflogau. Argymhellodd adroddiad Baker Gorff Adolygu Annibynnol ar gyfer cyflogau a lwfansau Aelodau Seneddol.
- 3.8 Gan hynny bydd y Mesur arfaethedig yn chwarae rhan allweddol wrth gyrraedd nod y Panel o greu "system gyflawn a chadarn ar gyfer rhoi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad, a honno'n system sy'n addas at y diben".⁵

4. Y Trefniadau Cyfredol a'r Cyd-destun Deddfwriaethol

4.1 Y trefniadau cyfredol

³ Paragraff 5.30, Panel Adolygu Annibynnol, [Yn Gywir i Gymru, Adolygiad annibynnol o'r trefniadau presennol ar gyfer rhoi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad](#), Gorffennaf 2009.

⁴ [Syr John Baker, Review of Parliamentary Pay and Pensions, Mehefin 2008, Cm 7416](#).

⁵ Paragraff 1.1, *ibid*

- 4.1.1 Cyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gael ei sefydlu ym 1999, gofynnwyd i'r Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion (SSRB) wneud argymhellion ynglŷn â strwythur ar gyfer cyflogau, lwfansau a phensiynau i Aelodau'r Cynulliad. Cloriannodd rolau a chyfrifoldebau Aelodau'r Cynulliad o'u cymharu ag Aelodau Seneddol San Steffan a chymaryddion yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, ac wedyn pennu cyflog Aelodau'r Cynulliad drwy gyfeirio at y gwaith cloriannu hwnnw. Mae'r SSRB wedi cynnal dau adolygiad arall wedyn o gyflogau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad, yn 2001 a 2004. Argymhellodd adolygiad 2004 gulhau'r gwahaniaeth rhwng cyflogau Aelodau Seneddol a chyflogau Aelodau'r Cynulliad i 76.5 y cant.
- 4.1.2 Adrannau 20 i 22 a 53 i 54 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n llywodraethu'r trefniadau cyfredol ynglŷn â thalu Aelodau'r Cynulliad a Gweinidogion Cymru, yn y drefn honno.
- 4.1.3 Mae adran 20:
- yn gosod dyletswydd ar y Cynulliad i wneud darpariaeth ar gyfer talu cyflogau i Aelodau'r Cynulliad;
 - yn rhoi pŵer i'r Cynulliad i wneud darpariaeth i dalu lwfansau i Aelodau'r Cynulliad;
 - yn rhoi pŵer i'r Cynulliad i wneud darpariaeth i dalu pensiynau, lwfansau neu arian rhodd i bobl a arferai fod yn Aelodau o'r Cynulliad ac i bobl sy'n dal yn Aelodau o'r Cynulliad ond a arferai fod yn Llywydd neu a arferai ddal swydd ychwanegol arall yn y Cynulliad.
- 4.1.4 Mae adran 53 yn cynnwys dyletswyddau a phwerau cyfatebol mewn perthynas â Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol.
- 4.1.5 Mae adrannau 20(6) a 53(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi pŵer i'r Cynulliad i wneud darpariaethau drwy reolau sefydlog neu drwy benderfyniad, i roi swyddogaethau i Gomisiwn y Cynulliad.
- 4.1.6 Mae adrannau 22(3) a 54(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gymwys os yw'r Cynulliad wedi rhoi swyddogaethau i'r Comisiwn ynglŷn â phenderfynu ar gyflogau etc. Yn yr achosion hyn, rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi ei benderfyniadau cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddyn nhw gael eu gwneud.
- 4.1.7 Mae adran 24 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn wneud taliadau i grwpiau gwleidyddol neu mewn perthynas â

grwpiau gwleidyddol er mwyn helpu aelodau o'r grwpiau hynny i gyflawni eu swyddogaethau. Y Comisiwn sydd i benderfynu ar lefel y taliadau hyn a rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi ei benderfyniadau yn ogystal â gwybodaeth flynyddol am y symiau sy'n cael eu talu o dan yr adran hon.

4.1.8 Mae Rheolau Sefydlog 1.7 i 1.10 (Hydref 2008) yn rhoi'r swyddogaethau o bennu cyflogau a lwfansau o dan adrannau 20, 21 a 53 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i Gomisiwn y Cynulliad.

4.2 *Y Panel Cyntaf*

- 4.2.1 Yn dilyn y newidiadau yn rôl a swyddogaeth y Cynulliad yn sgil Deddf Llywodraeth Cymru 2006, ym mis Gorffennaf 2007 penderfynodd Comisiwn y Cynulliad gadw'r gymhareb rhwng cyflogau Aelodau'r Cynulliad a chyflogau Aelodau Seneddol yn 76.5 y cant yn unol ag argymhelliad yr SSRB yn 2004 ond gofyn am adolygiad annibynnol.⁶ Yn hydref 2007, felly, penderfynodd y Comisiwn ofyn am argymhellion ar y cyflogau, y pensiynau a'r lwfansau sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad oddi wrth Banel o bedwar o bobl annibynnol, o dan gadeiryddiaeth Syr Michael Wheeler-Booth, cyn Glerc i'r Senedd, ac un o Gomisiynwyr y Cynulliad (heb bleidlais), William Graham AC ("y Panel Cyntaf").
- 4.2.2 Roedd Cylch Gorchwyl yr Adolygiad yn cynnwys gofyn i'r Panel Cyntaf ystyried cyflogau a chymorth ariannol arall Aelodau'r Cynulliad, lefelau cyflog priodol i ddeiliaid swyddi yn y Cynulliad a'r Llywodraeth a sut y dylai taliadau Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad gael eu trefnu.
- 4.2.3 Cafodd y Panel Cyntaf dystiolaeth ysgrifenedig gan chwe Aelod Cynulliad a dau arall a chymerodd dystiolaeth ar lafar oddi wrth bob un o'r pedair prif blaidd a gynrychiolidd yn y Cynulliad.
- 4.2.4 Cafodd adroddiad y Panel Cyntaf ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2008.⁷ At gwestiwn cyflogau Aelodau'r Cynulliad yn unig y cyfeiriodd yr adroddiad, gan esbonio:

We are conscious that the Panel has not, at this stage, discharged the entire brief given to us, but we felt it was necessary to approach the matter in two phases. This report deals with issues which, on the weight of the evidence and background information presented to us, appeared to be urgent. It also makes a recommendation that the Commission puts in place a fundamental review of the pay and system of financial support for Assembly Members,

⁶ [Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnodion, 4 Gorffennaf 2007.](#)

⁷ [Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Panel Annibynnol ar Gymorth Ariannol Aelodau'r Cynulliad, Mawrth 2008.](#)

which has the object of recommending something more tailored to the National Assembly for Wales, rather than the current structure, which is based upon that of Westminster.

- 4.2.5 Casgliad yr adroddiad oedd hyn: er bod y pwerau a'r dyletswyddau newydd a roddwyd i Aelodau'r Cynulliad ym mis Mai 2007 wedi arwain at gynnydd yn eu rolau, nad oedd y rheiny wedi datblygu'n llawn eto. Serch hynny, roedd Aelodau'r Cynulliad yn gweithio'n fwyfwy o fewn eu pwerau newydd er nad oedd eu rolau wedi cyrraedd yr un lefel â rolau Aelodau Senedd yr Alban.
- 4.2.6 Gwnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion gan gynnwys "a fundamental examination of the pay and system of financial support for Members under the developing devolution settlement". Byddai hynny'n caniatáu i'r adolygiad gael ei fwydo gan ragor o brofiad o bwerau newydd y Cynulliad wrth iddyn nhw ddatblygu, ac i ymagwedd newydd gael ei mabwysiadu a'i theilwra ar gyfer y Cynulliad.
- 4.2.7 Ategodd Comisiwn y Cynulliad brif argymhelliad y Panel Cyntaf, sef lleihau'r gwahaniaeth rhwng cyflogau Aelodau Seneddol a chyflogau Aelodau'r Cynulliad ymhellach drwy gynyddu'r gymhareb o 76.5 y cant i 82 y cant er mwyn adlewyrchu'r cynnydd yn y cyfrifoldebau a drosglwyddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Cymeradwyodd hefyd nifer o newidiadau eraill yn y cyflogau a oedd yn daladwy i ddeiliaid swyddi. Ym mis Mai 2008, cytunodd Comisiwn y Cynulliad y dylid sefydlu panel annibynnol a fyddai'n adolygu'r ystod gyfan o dâl a chymorth i Aelodau'r Cynulliad.⁸

4.3 *Y Panel Adolygu Annibynnol*

- 4.3.1 Sefydlodd Comisiwn y Cynulliad y Panel yn haf 2008. Cylch gorchwyl y Panel oedd:

Edrych ar bob agwedd ar y cymorth ariannol sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad, gan gynnwys cyflogau a lwfansau ar gyfer teithio, llety, swyddfeydd yn yr etholaethau a staff cymorth.

Wrth gyflawni'i waith, bydd y Panel yn gwneud y canlynol:

⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Comisiwn y Cynulliad, [Cofnodion \(AC 2008 \(3\)\)](#), 8 Mai 2008.

- adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer rhoi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad a chwilio am arferion gorau.
- clywed tystiolaeth ar faterion perthnasol
- ymgynghori â chyrrff a rhanddeiliaid perthnasol
- llunio cyfres o argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth, a'r rheini'n cynnwys egwyddorion a fydd yn creu proses deg, gyfiawn a thryloyw ar gyfer rhoi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad.

4.3.2 Cafodd adroddiad y Panel ei gyflwyno i Gomisiwn y Cynulliad ar 6 Gorffennaf 2009.

4.4 *Yr angen am dull annibynnol ar gyfer tâl a lwfansau*

4.4.1 Argymhellodd adroddiad y Panel y dylai'r cysylltiad uniongyrchol rhwng cyflogau Aelodau'r Cynulliad a chyflogau Aelodau Seneddol yn San Steffan ddod i ben. Mae hyn yn wir hefyd am y cysylltiad rhwng cyflogau deiliaid swyddi ychwanegol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a chyflogau swyddi penodol yn San Steffan.

4.4.2 Wedi penderfynu y dylai'r cysylltiad uniongyrchol â chyflogau San Steffan gael ei dorri, ategodd y Panel yr ymagwedd at sefydlu dull annibynnol a argymhellwyd yn adroddiad Baker ar gyflogau a lwfansau Aelodau Seneddol yn 2008.

4.4.3 Nododd adroddiad Baker dair prif elfen sy'n angenrheidiol ar gyfer "independent mechanism for determining pay":

- dull uwchraddio a fydd yn addasu tâl yn awtomatig (naill ai'n flynyddol neu yn ôl rhyw gyfnod arall);
- pennu lefel y tâl ar lefel sylfaen er mwyn i'r dull uwchraddio ddod i rym;
- Corff Annibynnol a all adolygu a yw'r tâl yn dal yn ddigonol ar gyfer y gwaith ac yn briodol yng ngoleuni unrhyw newidiadau yn y rolau a'r cyfrifoldebau. Byddai'r Corff Annibynnol hefyd yn monitro sut y byddai'r dull uwchraddio'n gweithio.

4.4.4 Argymhellodd adroddiad Baker hefyd y dylai'r adolygiadau hyn gael eu cynnal unwaith ym mhob Senedd ac y dylai canlyniad yr adolygiadau gael ei roi ar waith heb fod angen rhagor o drafod na phleidlais yn Nhŷ'r

Cyffredin. Cafodd y materion hyn eu trafod yn Nhŷ'r Cyffredin ym mis Gorffennaf 2008 a chafodd opsiynau dewisol Llywodraeth y Deyrnas Unedig, a seiliwyd yn bennaf ar adroddiad Baker, eu mabwysiadu. Ar hyn o bryd, felly, dydy Aelodau Seneddol ddim yn pleidleisio ar eu cyflogau a'u lwfansau eu hunain. Mae ganddyn nhw bŵer o hyd i droi'n ôl at yr hen system gyflogau ond erbyn hyn mae'r pŵer i bennu lefelau lwfansau wedi'i drosglwyddo i'r Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol o dan Ddeddf Safonau'r Senedd 2009.

- 4.4.5 Nododd y Panel fod adroddiad Baker yn cynnwys tabl o gymariaethau rhyngwladol, a nododd sut mae tâl Aelodau etholedig yn cael ei benderfynu mewn sawl gwlad. Dangosodd fod paneli taliadau annibynnol yn cael eu defnyddio mewn pump o'r gwledydd hyn; Awstralia, Seland Newydd, Norwy, Sbaen a Sweden. Dydy'r Aelodau ddim yn chwarae rhan wrth bennu eu tâl mewn saith o'r gwledydd; Canada, Ffrainc, Iwerddon, Seland Newydd, Singapore, Sbaen a Sweden. Dywedodd yr Adroddiad hefyd:

In France, the pay of Members of Parliament has been directly linked to the pay of senior civil servants since 1958. French Members of Parliament do not vote on their own or the civil servants' pay. In Ireland, pay of the Irish Members of Parliament is linked to the civil service and fundamental reviews are conducted every four years. In Italy, the salaries of Members of Parliament are linked to magistrates in the Supreme Court, but the magistrates' salaries are set by the Government. In New Zealand, the salaries and allowances of Members of Parliament are set by an independent statutory body called the Remuneration Authority; they use public and private comparators. There is widespread international use of comparators and the setting of pay independently.

- 4.4.6 Gan hynny, argymhellodd y Panel sefydlu Corff Adolygu Annibynnol yng Nghymru i gyfarfod o leiaf chwe mis cyn y Cynulliad nesaf⁹ i benderfynu ar dâl Aelodau'r Cynulliad at y dyfodol. Argymhellodd y Panel hefyd y dylai'r Corff Adolygu gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn.

- 4.4.7 Argymhellodd y Panel mai'r canlynol fyddai rôl y corff hwn:

⁹ Mewn geiriau eraill, cyfarfod erbyn mis Tachwedd 2010 fan bellaf

- gwneud penderfyniadau ynghylch pob agwedd ar gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad;
- ystyried cyfrifoldebau newidiol yng ngwaith Aelodau'r Cynulliad;
- adolygu effeithiolrwydd ac effaith y broses uwchraddio;
- ymdrin ag unrhyw faterion 'ad hoc', megis creu swyddi newydd i ddeiliaid swyddi;
- adolygu a chymeradwyo newidiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer costau swyddfa;
- bwrw trosolwg ar y pecyn taliadau cyfan a'r gyfundrefn treuliau a lwfansau.

4.4.8 Roedd y Panel o'r farn y dylai'r Corff Adolygu Annibynnol gael ei benodi ar sail statudol a gweithredu'n annibynnol. Byddai arno angen cymorth ac adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau. Rôl y Corff Adolygu Annibynnol fyddai penderfynu ar bob agwedd ar gymorth ariannol Aelodau'r Cynulliad. Byddai'r penderfyniadau hynny'n derfynol a fyddai dim angen cadarnhad na chymeradwyaeth Comisiwn y Cynulliad neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gan hynny, mae argymhelliad 12 yn adroddiad y Panel yn argymhell y dylai Comisiwn y Cynulliad baratoi a chyflwyno Mesur Cynulliad cyn gynted ag sy'n ymarferol, i sefydlu'r Corff Adolygu Annibynnol hwn.

4.4.9 Awgrymodd y Panel y dylai aelodau'r corff hwn fod yn annibynnol ar y Cynulliad a meddu ar arbenigedd perthnasol. Roedd y Panel o'r farn y byddai'n briodol mynd ati drwy gael Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad (yn rhinwedd ei swydd fel Prif Swyddog Cyfrifyddu), yr Archwilydd Cyffredinol ac Ymgynghorydd Annibynnol i'r Comisiwn i'w dethol. Dylai'r Prif Swyddog Cyfrifyddu gael galw cyfarfod o'r Corff unrhyw bryd.

4.4.10 Mae Crynodeb Gweithredol adroddiad y Panel yn dweud na ddylai ymgeiswyr i'w hethol yn Aelodau o'r Cynulliad gael eu denu gan lefel y taliadau a'r treuliau yn unig, ond na ddylen nhw gael eu hatal rhag sefyll chwaith am nad oes ganddyn nhw fodd digonol.

4.4.11 Argymhelliad 14 yn adroddiad y Panel yw y dylai'r Corff Adolygu Annibynnol adolygu o dro i dro y taliadau atodol sy'n cael eu talu i ddeiliaid swyddi ychwanegol (gweler paragraffau 3.3 a 3.4 uchod).

4.4.12 Roedd y Panel o'r farn y dylai'r Corff Adolygu Annibynnol ystyried gwerth cynllun pensiwn Aelodau'r Cynulliad fel rhan o gyfanswm y pecyn taliadau.

4.4.13 Mae Comisiwn y Cynulliad wedi derbyn argymhellion y Panel yn llawn ac mae'r Mesur arfaethedig yn cael ei gyflwyno er mwyn rhoi'r argymhelliad allweddol ar waith drwy greu **Bwrdd Taliadau annibynnol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru** a hwnnw'n Gorff Adolygu Annibynnol statudol i bennu ac adolygu cyflogau, lwfansau a threfniadau pensiwn Aelodau'r Cynulliad a deiliaid swyddi ychwanegol.

5. Ymgynghori gan y Panel

- 5.1 Wrth ategu'r angen am fwrdd taliadau annibynnol, mae Comisiwn y Cynulliad wedi rhoi sylw i'r gwaith helaeth a wnaed gan y Panel i gasglu tystiolaeth yn ystod ei adolygiad. O gofio bod yr angen am y Mesur hwn wedi codi o adroddiad y Panel, ni fernid bod angen cynnal ymarfer ymgynghori ar wahân.
- 5.2 Wrth gynnal ei adolygiad, casglodd y Panel dystiolaeth drwy amryw o ffyrdd. Yn ystod ei gyfarfod cyntaf cytunodd y Panel y byddai'n gofyn am dystiolaeth gan holl Aelodau'r Cynulliad, y grwpiau plaid a gynrychiolid yn y Cynulliad, staff cymorth yr Aelodau, deddfwrfeydd eraill y Deyrnas Unedig a sefydliadau perthnasol. Mynegwyd galwad gyffredinol am dystiolaeth gan y cyhoedd hefyd. Daeth 74 o ymatebion i law; deg gan Aelodau neu eu staff cymorth, 36 gan gynghorau lleol (gan gynnwys cynghorau cymuned), saith gan sefydliadau eraill ac 21 gan unigolion.
- 5.3 Cafodd dau gyfarfod cyhoeddus eu cynnal; y naill yn Llandudno ar 5 Rhagfyr 2008 a'r llall yng Nghaerdydd ar 27 Ionawr 2009. Yn ychwanegol, cafodd 25 o gyfarfodydd preifat eu cynnal rhwng Medi 2008 a Gorffennaf 2009. Mewn rhai o'r cyfarfodydd hyn clywodd y Panel dystiolaeth gan 15 o Aelodau'r Cynulliad a dau Weinidog. Mynegodd pedwar Aelod farn eu grwpiau gwleidyddol ac ymddangosodd eraill ar eu rhan nhw eu hunain. Clywodd y Panel hefyd gan ddau gyn Aelod o'r Cynulliad, un ohonyn nhw yn Aelod Seneddol bellach. Yn ychwanegol, clywyd tystiolaeth gan saith o staff cymorth Aelodau o'r pedwar prif grŵp gwleidyddol, ynghyd â swyddogion o Senedd yr Alban a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi.
- 5.4 Cynhaliodd y Panel drafodaethau anffurfiol gyda phedwar Comisiynydd y Cynulliad, y Comisiynydd Safonau, Archwilydd Cyffredinol Cymru, aelod o'r panel adolygu blaenorol ac amryw o swyddogion Comisiwn y Cynulliad sy'n ymwneud â gweinyddu'r system gyffredol o gymorth ariannol i'r Aelodau.
- 5.5 Cynhaliodd Cadeirydd y Panel, Syr Roger Jones, drafodaethau anffurfiol hefyd gyda Syr Alan Langlands, Cadeirydd y panel a adolygodd lwfansau Aelodau o Senedd yr Alban, a Syr Christopher Kelly, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau ac Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

- 5.6 Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn adlewyrchu'r angen am annibyniaeth a thryloywder ar draws holl gwestiwn tâl a lwfansau.¹⁰
- 5.7 Galwodd llawer o'r ymatebwyr am ganllawiau clir a manwl ar dâl a lwfansau'r Aelodau, wedi'u hysgrifennu mewn Saesneg clir, er mwyn i'r Aelodau a'r cyhoedd ddeall pa daliadau yn union y byddai gan yr Aelodau hawl i'w cael ac am system fonitro glir ynglŷn â'r lwfansau a fyddai'n cael eu talu, a honno i fod yn destun cyhoedduswydd da.¹¹
- 5.8 Cafwyd beirniadaeth ar y cyflogau a'r lwfansau presennol ond cydnabyddiaeth hefyd y dylai'r Aelodau gael eu talu'n deg am y treuliau angenrheidiol a fyddai'n cael eu hysgwyddo fel rhan o'u dyletswyddau fel Aelodau o'r Cynulliad er enghraifft, "remuneration should be adequate for the proper performance of their role".¹²
- 5.9 Roedd y mwyafrif o'r sylwadau'n ymwneud â lefelau tâl a lwfansau a system gadarn i'w monitro. Er hynny, roedd yna sylwadau hefyd am y broses ar gyfer pennu tâl a lwfansau'r Aelodau, er enghraifft "Assembly Members should not decide on their own rates of pay and allowances"¹³ a "politicians are in the unique position of being able to fix both their salaries and expenses with very little control".¹⁴

¹⁰ [Tystiolaeth a gyflwynwyd i Ymgynghoriad y Panel.](#)

¹¹ Ers 29 Mehefin 2009 mae manylion lwfansau, tâl a threuliau'r Aelodau yn cael eu cyhoeddi ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru: [Cyhoeddi Lwfansau Aelodau'r Cynulliad](#)

¹² [Tystiolaeth a gyflwynwyd i Ymgynghoriad y Panel](#), Rhif 41 Cyngor Tref Caerfyrddin

¹³ [Tystiolaeth a gyflwynwyd i Ymgynghoriad y Panel](#), Rhif 24, Cyngor Tref Johnston

¹⁴ [Tystiolaeth a gyflwynwyd i Ymgynghoriad y Panel](#), Rhif 23 Gwynne Evan Owen

6. Pŵer i wneud Is-ddeddfwriaeth

- 6.1 Ceir un pŵer i wneud gorchmynion ar ffurf offeryn statudol o dan adran 3A(2). Gweler paragraffau 13 a 14 o Ran 3: Nodiadau Esboniadol isod.

7. Cymhwysiad Tiriogaethol

- 7.1 Bydd y Mesur arfaethedig hwn yn gymwys o ran Cymru¹⁵.

¹⁵ Ond gweler y nodyn ar adran 13A yn y Nodiadau Esboniadol (isod)

Rhan 2: Aseiad Effaith Reoleiddiol

8. Opsiynau

8.1 Yr opsiynau ar hyn o bryd yw:

Opsiwn 1: Gwneud dim

Opsiwn 2: Gofyn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig gyflwyno Mesur Seneddol

Opsiwn 3: Cyflwyno Mesur arfaethedig

Opsiwn 1: Gwneud dim

- 8.2 Yr opsiwn cyntaf yw parhau â'r trefniadau presennol lle mae Comisiwn y Cynulliad yn dal yn gyfrifol am bennu ac adolygu cyflogau a chymorth ariannol arall Aelodau'r Cynulliad. Fyddai dim angen deddfu i dorri'r cysylltiad â chyflogau San Steffan. Er hynny, argymhellodd y Panel fod angen system annibynnol newydd a fyddai'n "agored a thryloyw" ac a fyddai'n ennyn "ffydd y cyhoedd". Argymhellodd yn benodol y dylai'r Comisiwn gyflwyno Mesur Cynulliad gyn gynted ag y gallai.
- 8.3 Yn y Strategaeth ar gyfer y Trydydd Cynulliad nododd Comisiwn y Cynulliad ei ddiben, sef "gwneud y Cynulliad yn gorff seneddol hygyrch ac effeithiol sy'n ennyn hyder pobl Cymru".
- 8.4 O gofio bod Comisiwn y Cynulliad wedi sefydlu'r Panel i gyflwyno adroddiad ar drefniadau at y dyfodol a'i fod wedyn wedi derbyn argymhellion y Panel yn llawn, gyda chefnogaeth y pleidiau gwleidyddol i gyd, byddai peidio â bwrw ymlaen â Mesur ar hyn o bryd yn tanseilio hyder y cyhoedd yn y Cynulliad mewn ffordd ddifrifol ac mae'r opsiwn hwn felly i bob pwrpas yn cael ei wrthod.

Opsiwn 2: Gofyn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig gyflwyno Mesur Seneddol

- 8.5 Gan fod Bwrdd Taliadau annibynnol statudol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'w sefydlu, gan arfer swyddogaethau statudol sydd wedi'u breinio ar hyn o bryd yn y Cynulliad a'r Comisiwn, yna mae angen deddfu i ddiwygio darpariaethau presennol Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (gweler Adran 4.1 uchod). Fe allai hynny gael ei wneud drwy Fesur Seneddol ond mae gan y Cynulliad bŵer i wneud ei gyfraith ei hun mewn meysydd lle mae'r cymhwysedd wedi'i ddatganoli ac felly mae'n gallu sefydlu'r Bwrdd drwy ddiwygio Deddf 2006 drwy gyfrwng Mesur Cynulliad.

(Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi pŵer penodol i'r Cynulliad i ddiwygio'r adrannau perthnasol o'r Ddeddf - gweler Atodlen 5 Rhan 2 paragraff 6(2).) Am y rheswm hwn, byddai gofyn am Fesur Seneddol i ddiwygio Deddf 2006, a'r pŵer eisoes gan y Cynulliad i'w wneud hyn ei hun, yn ffordd ddiangen ac amhriodol i ddefnyddio amser y Senedd. O gofio bod angen sefydlu'r Bwrdd ar fyrder cyn yr etholiadau nesaf i'r Cynulliad yn 2011, mae'n annhebyg iawn beth bynnag y byddai'n bosibl i Fesur Seneddol wireddu'r un amcan yn yr amser sydd ar gael, yn enwedig yng ngleuni'r ffaith bod rhaid cynnal Etholiad Cyffredinol erbyn haf 2010.

Opsiwn 3: Cyflwyno Mesur arfaethedig

- 8.6 Mae'r Panel wedi amlinellu'r trefniadau y byddai'n dymuno eu gweld cyn yr etholiadau nesaf i'r Cynulliad yn 2011. Mae hyn yn cynnwys sefydlu'r Corff Adolygu Annibynnol statudol a ddylai gyfarfod am y tro cyntaf o leiaf chwe mis cyn y Cynulliad nesaf (sef erbyn Tachwedd 2010 fan bellaf) i bennu cyflogau Aelodau'r Cynulliad a'r deiliaid swyddi ychwanegol ar gyfer tymor nesaf y Cynulliad.
- 8.7 Gan hynny, mae angen deddfu ar fyrder er mwyn rhoi'r argymhelliad hwn ar waith, sef argymhelliad sydd wedi'i dderbyn gan Gomisiwn y Cynulliad. Gan fod gan y Cynulliad bwerau i wneud Mesurau yn barod mewn perthynas â chyflogau Aelodau'r Cynulliad o dan Fater 13.3 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gall ddefnyddio'r pwerau hyn i sefydlu'r Bwrdd ar y cyfle cyntaf (gweler Adran 2 uchod).
- 8.8 Argymhellodd y Panel y dylai Comisiwn y Cynulliad baratoi a chyflwyno Mesur Cynulliad cyn gynted ag y byddai'n ymarferol, i sefydlu'r bwrdd taliadau statudol.
- 8.9 Yn yr hinsawdd wleidyddol sydd ohoni, rhaid peidio â bychanu pwysigrwydd sicrhau hyder y cyhoedd o ran sut mae tâl a chymorth ariannol arall Aelodau'r Cynulliad yn cael eu pennu. Mae'r Mesur arfaethedig yn darparu ar gyfer sefydlu system gadarn, dryloyw ac annibynnol ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad.

9. Amcangyfrif o'r Costau

Amcangyfrif o'r Costau: Opsiwn 1 - gwneud dim - parhau â'r trefniadau presennol.

- 9.1 Ychydig iawn o gostau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn gan fod y Mesur yn edrych ar gostau sefydlu a chynnal y Bwrdd, sef rhywbeth na fyddai'n digwydd yn yr opsiwn hwn.

Amcangyfrif o'r Costau: Opsiwn 2 - Gofyn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig gyflwyno Mesur Seneddol

- 9.2 Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y byddai'n annhebyg iawn y gallai Mesur o'r fath gael ei basio i alluogi'r Bwrdd i gael ei sefydlu cyn yr etholiadau nesaf i'r Cynulliad. Y cyfan y byddai hynny'n ei wneud fyddai ychwanegu cam arall at y broses ddeddfu a byddai'r amcangyfrif o gostau'r Bwrdd a nodir yn Opsiwn 3 yn gymwys hefyd i Opsiwn 2 yn ychwanegol at y costau gweinyddol wrth basio Mesur Seneddol.

Amcangyfrif o'r Costau: Opsiwn 3 - Cyflwyno Mesur Arfaethedig

- 9.3 Mae'r Panel yn argymhell y dylai'r bwrdd adolygu annibynnol statudol gyfarfod am y tro cyntaf o leiaf chwe mis cyn y Cynulliad nesaf, erbyn mis Tachwedd 2010 fan bellaf. Aelodau'r Bwrdd fydd y cadeirydd a phedwar aelod arall a bydd yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn.
- 9.4 Mae'n debyg y bydd angen i'r Bwrdd gyfarfod yn amlach yn y flwyddyn yn union cyn pob etholiad i'r Cynulliad, i bennu'r taliadau ar gyfer tymor nesaf y Cynulliad ac yn llai aml rhwng yr etholiadau i fonitro ac i ymdrin â materion ad hoc.
- 9.5 Bydd y costau'n wahanol felly ar gyfer blwyddyn yn arwain at etholiad a'r blynyddoedd pan nad oes etholiad wedi'i gynllunio.
- 9.6 Mae'r amcangyfrifon canlynol o gostau'n defnyddio'r cyfraddau tâl i'r cadeirydd, sef £237 y dydd, ac i aelodau eraill y panel, sef £185 y dydd, a dalwyd i'r Panel Adolygu Annibynnol a gyflwynodd ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2009.
- 9.7 Ar sail y rhagdybiaethau hyn, cost ddyddiol cyflogi pob un o'r pump o aelodau'r Bwrdd yw rhyw £1,200, gan gynnwys y costau atodol fel teithio a chynhaliadau. Mae'n ofynnol cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn, a

rhagdybiwyd y bydd pob aelod o'r Bwrdd yn rhoi dau ddiwrnod o waith am bob un diwrnod o gyfarfodydd, i wneud gwaith paratoi a gwaith dilynol.

Blwyddyn heb etholiad

- 9.8 Ar y rhagdybiaeth y ceir dau gyfarfod mewn blwyddyn arferol ac y bydd hynny'n golygu cyfraniad o bedwar diwrnod gan bob aelod o'r Bwrdd, byddai'r gost flynyddol tua £5,000.
- 9.9 Bydd y gofynion o ran cymorth gweinyddol yn dibynnu ar weithgareddau'r Bwrdd. Mewn blwyddyn pan na fydd adolygiad llawn, mae'n debyg mai ychydig iawn o gymorth a roddir, sef rhyw ddau ddiwrnod am bob un diwrnod o gyfraniad gan y Bwrdd. Bydd hyn yn cynnwys paratoi a lledaenu unrhyw ganfyddiadau a wnâi'r Bwrdd. Byddai hynny'n gyfartal â phedwar diwrnod o gymorth gweinyddol ym mhob un o flynyddoedd 2011-12, 2012-13 a 2013-2014 a byddai'n cael ei roi gan y staff presennol.

Blynyddoedd etholiad

- 9.10 Byddai angen adolygiad manylach bob pedair blynedd, cyn pob etholiad i'r Cynulliad. Bwriedir i'r adolygiad cyntaf adeiladu ar argymhellion adroddiad y Panel. Y gost a roddwyd mewn adroddiad am waith y Panel oedd bron £60,000.¹⁶
- 9.11 Mae'r Mesur arfaethedig yn dweud y bydd disgwyl i'r Bwrdd roi sylw i argymhellion y Panel a rhagdybir felly y bydd modd adeiladu ar lawer o'r gwaith ymchwil a'r ymatebion ymgynghori. Oherwydd hynny, bydd y costau yn 2010-11 gryn dipyn yn llai na £60,000.
- 9.12 O ragdybio y ceid wyth cyfarfod yn 2010-11, byddai hynny'n gyfystyr â rhyw 16 diwrnod i bob aelod o'r Bwrdd, a chyfanswm cost hynny fyddai rhyw £19,000. A bwrw y byddai dau ddiwrnod ar gyfer pob cyfarfod, byddai lefel y cymorth gweinyddol y byddai ei angen yn ystod 2010-11 oddi wrth staff y Cynulliad yn 16 diwrnod, a gâi ei ddarparu gan y staff presennol.
- 9.13 Yn y blynyddoedd pan geir etholiad i'r pumed Cynulliad ac wedyn, mae'n debyg y byddai angen ailbrisiad cynhwysfawr.

Y costau blynyddol

- 9.14 Ar sail yr amcangyfrifon uchod, byddai hyn yn gyfystyr â chostau o ryw £19,000 yn 2010-11, a £5,000 yn 2011-12, 2012-13 a 2013-14.

¹⁶ Ffynhonnell: Comisiwn y Cynulliad – Ymateb i gais Rhyddid Gwybodaeth (heb ei gyhoeddi eto)

- 9.15 Bydd rhywfaint o amrywio o ran nifer y dyddiau o gyfraniad a geir gan aelodau'r Bwrdd, a bydd nifer y dyddiau a gyfrennir mewn gwirionedd yn dibynnu'n rhannol ar y galw am eu gwasanaethau ynglŷn â materion ad hoc.
- 9.16 Ceir costau ychwanegol hefyd wrth recriwtio aelodau'r Bwrdd. Bydd y gost hon yn digwydd ym mlwyddyn ariannol 2010-11 ac ni ddylai cost hysbysebu ceisiadau fod yn fwy na £6,000.
- 9.17 Comisiwn y Cynulliad fyddai'n talu'r holl gostau ynglŷn â'r Bwrdd a amlygwyd uchod.

Nodyn ar gostau sydd wedi'u hepgor o bob un o'r tri opsiwn

- 9.18 Bydd costau casglu a lledaenu gwybodaeth am dâl a threuliau Aelodau'r Cynulliad yn gyffredin i bob un o'r tri opsiwn ac felly maen nhw wedi'u hepgor o'r cyfrifiadau.
- 9.19 Byddai angen trefniadau archwilio mewnol ac allanol tebyg o ran archwilio taliadau i'r Aelodau hefyd, p'un a fyddai'r Bwrdd yn gweithredu neu beidio. Byddai tâl a threuliau aelodau'r Bwrdd yn rhan o gyfrifon y Cynulliad ac yn dod o dan archwiliad y cyfrifon hynny. Gan hynny, dydy'r amcangyfrifon o'r costau ddim yn cael eu pennu gan y Mesur arfaethedig ac maen nhw wedi'u hepgor o'r cyfrifiadau.

Rhan 3: Nodiadau Esboniadol

Adran 1 – Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Mae'r adran hyn yn sefydlu'r Bwrdd, yn unol ag argymhelliad 12 yn adroddiad y Panel.
2. Bydd y Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd a phedwar aelod arall. Gall cadeirydd dros dro gael ei benodi gan yr aelodau eraill os ceir lle gwag neu os na all y Cadeirydd weithredu, er enghraifft os na all y Cadeirydd fod yn bresennol mewn cyfarfod penodol.
3. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid cael o leiaf dri aelod yn bresennol er mwyn i unrhyw un o gyfarfodydd y Bwrdd gael ei gynnal. Mae is-adran (5) yn datgan bod rhaid i unrhyw benderfyniad a wneir gan y Bwrdd o dan adran 20(6), 24(1) neu 53(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("y Ddeddf") (gweler paragraff 8 isod) gael ei gymeradwyo gan o leiaf dri aelod. Yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau hyn a'r cyfyngiadau a nodir yn adran 1A(2) a (4) (gweler isod), mater i'r Bwrdd fydd pennu ei weithdrefnau ei hun.
4. Fydd lle gwag ymhlith yr aelodau neu ddiffyg wrth benodi aelod ddim yn effeithio ar ddilysrwydd trafodion y Bwrdd.

Adran 1A - Annibyniaeth, bod yn agored ac yn gynhwysol

5. Mae is-adran (1) yn sefydlu annibyniaeth y Bwrdd rhag unrhyw ddylanwad gan y Cynulliad neu Gomisiwn y Cynulliad wrth iddo arfer ei swyddogaethau.
6. Mae is-adran (2) yn gosod dyletswydd bendant ar y Bwrdd i weithredu mewn modd agored a thryloyw, gan gadw yr un pryd ei hawl i ystyried mater yn breifat pan fo hynny'n briodol. Un enghraifft fyddai wrth gymryd cyngor cyfreithiol neu wrth bennu manylion terfynol penderfyniad drafft. Mae hefyd yn ofynnol i'r Bwrdd roi gwybod i'r cyhoedd am ei weithgareddau drwy roi cyhoeddusrwydd iddyn nhw ar wefan y Cynulliad.
7. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd ymgynghori â'r personau hynny y gallai penderfyniadau'r Bwrdd effeithio arnyn nhw. Er hynny, wrth ymgynghori fel hyn, mae'n rhaid i'r Bwrdd gofio'i ddyletswydd i weithredu'n annibynnol o ran cyflawni ei swyddogaethau, yn unol ag is-adran (1).

Adran 2 - Swyddogaethau'r Bwrdd

8. Mae'r adran hon yn darparu (yn unol ag argymhelliad 12 yn adroddiad y Panel) mai prif swyddogaethau'r Bwrdd yw'r rhai a roddir iddo gan adrannau 20, 22, 24, 53 a 54 o'r Ddeddf fel y'i diwygir gan y Mesur arfaethedig hwn. Bydd adrannau 20 a 22 o'r Ddeddf (fel y'i diwygir) yn rhoi i'r Bwrdd y swyddogaeth o wneud penderfyniadau ynglŷn â chyflogau, lwfansau a phensiynau Aelodau'r Cynulliad. Bydd adran 24 yn rhoi i'r Bwrdd y swyddogaeth o wneud penderfyniadau ynglŷn â grwpiau gwleidyddol o Aelodau'r Cynulliad. Bydd adrannau 53 a 54 yn rhoi i'r Bwrdd y swyddogaeth o wneud penderfyniadau ynglŷn â Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol.
9. Mae is-adran (2) yn nodi tri amcan y mae'n rhaid i'r Bwrdd geisio'u gwireddu wrth arfer ei swyddogaethau: yn gyntaf, darparu lefel taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad sy'n adlewyrchiad teg o gymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y mae disgwyl iddyn nhw eu cyflawni ac nad yw, ar sail ariannol, yn atal personau y mae ganddynt yr ymrwymiad a'r gallu angenrheidiol rhag ceisio cael eu hethol i'r Cynulliad; yn ail, darparu adnoddau digonol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad i'w galluogi i arfer eu swyddogaethau fel Aelodau o'r Cynulliad ac, yn drydydd, sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario mewn modd priodol ac atebol, gan sicrhau gwerth am arian a thryloywder yn unol ag argymhellion y Panel.
10. Bydd y Bwrdd o dan ddyletswydd i adolygu'n barhaus i ba raddau y mae'r amcanion hyn yn cael eu cyflawni gan benderfyniadau'r Bwrdd. Wrth gynnal adolygiad o'r fath, rhaid i'r Bwrdd gymryd i ystyriaeth sut mae'r penderfyniadau hynny wedi gweithredu, unrhyw newidiadau yn swyddogaethau Aelodau'r Cynulliad ac unrhyw newidiadau perthnasol eraill yn yr amgylchiadau.
11. Fe gaiff y Bwrdd ystyried unrhyw fater arall sy'n berthnasol i gyflawni ei swyddogaethau, naill ai o'i ben a'i bastwn ei hun neu ar ôl cael cais ysgrifenedig gan Glerc y Cynulliad.

Adran 3 - Anghymhwysio rhag bod yn aelod o'r Bwrdd

12. Mae'r adran hon yn cyflwyno Atodlen 1 sy'n cynnwys rhestr o'r personau sydd wedi'u hanghymhwysio rhag bod yn aelodau o'r Bwrdd (gweler isod).

Adran 3A – Pŵer i ddiwygio Atodlen 1

13. Mae'r adran hon yn galluogi'r rhestr o bersonau sydd wedi'u hanghymhwysio rhag bod yn aelodau o'r Bwrdd i gael ei diwygio o dro i dro,

yng ngoleuni newidiadau yn yr amgylchiadau, heb fod angen Mesur diwygio.

14. Mae angen penderfyniad gan y Cynulliad i ddiwygio Atodlen 1 drwy ychwanegu neu ddileu swydd neu berson, neu drwy addasu'r disgrifiad o swydd neu berson o'r fath. Pan fydd penderfyniad o'r fath wedi'i basio, mae is-adran (2) yn darparu'r modd deddfwriaethol i roi'r penderfyniad hwnnw ar waith. Mae hyn yn cael ei wneud drwy roi pŵer i'r Cwnsler Cyffredinol i roi ei effaith i benderfyniad y Cynulliad drwy wneud gorchymyn sy'n cael ei arfer drwy offeryn statudol. Mae'n ofynnol i'r Cwnsler Cyffredinol arfer y pŵer hwnnw cyn gynted â phosibl ar ôl i'r penderfyniad gael ei basio gan y Cynulliad.

Adran 4 - Penodi aelodau'r Bwrdd

15. Comisiwn y Cynulliad sydd i benodi Cadeirydd ac aelodau eraill y Bwrdd a hynny am gyfnod penodedig o bum mlynedd. Ni chaniateir penodi person yn aelod o'r Bwrdd fwy na dwywaith. Mae hynny'n golygu mai deng mlynedd yw'r cyfnod hiraf y gallai person fod yn aelod. Mae is-adran (3) yn cyflwyno Atodlen 2 (gweler isod).

Adran 5 - Terfynu aelodaeth o'r Bwrdd

16. Mae'r adran hon yn darparu bod Cadeirydd ac aelodau eraill y Bwrdd yn peidio â dal eu swydd pan ddaw cyfnod eu penodiad i ben, os byddan nhw'n ymddeol, os cân nhw eu hanghymhwyso neu os cân nhw eu diswyddo yn sgil cynnig a gynigir gan un o aelodau Comisiwn y Cynulliad ar ran Comisiwn y Cynulliad. Os ceir pleidlais arno, rhaid i'r cynnig gael ei basio â mwyafrif o ddwy ran o dair yn y Cynulliad.

Adran 6 - Telerau ac amodau

17. Comisiwn y Cynulliad sydd i bennu o dan ba delerau ac amodau y bydd y Cadeirydd a'r aelodau eraill yn dal eu swyddi. Rhaid i Gomisiwn y Cynulliad dalu i'r Cadeirydd a'r aelodau eraill unrhyw symiau y mae ganddyn nhw hawl i'w cael o dan y telerau a'r amodau hynny.

Adran 7 - Cymorth gweinyddol

18. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn y Cynulliad ddarparu ar gyfer y Bwrdd y cymorth gweinyddol y mae'n rhesymol i'r Bwrdd ofyn amdano.

Adran 8 - Cyfarfodydd y Bwrdd

19. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd gyfarfod o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn galendr (gweler argymhelliad 108 yn adroddiad y Panel). Yn ychwanegol, rhaid i'r Bwrdd gyfarfod i ystyried mater penodol os bydd Clerc y Cynulliad yn gwneud cais mewn ysgrifen i'r Bwrdd wneud hynny. Mae adran 10 hefyd yn cynnwys gofynion sy'n effeithio ar amllder ac amser cyfarfodydd y Bwrdd. Heblaw am y cyfyngiadau hyn, mae'r Bwrdd yn rhydd i benderfynu pryd y bydd yn cyfarfod.

Adran 8A – Adroddiad Blynyddol

20. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar y Bwrdd, cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, i osod adroddiad blynyddol gerbron y Cynulliad. Bydd yr adroddiad blynyddol yn cynnwys holl weithgareddau'r Bwrdd, gan gynnwys sut y mae wedi defnyddio'i adnoddau, yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Bydd yn agored i bwyllgorau perthnasol y Cynulliad, megis y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyllid, ystyried yr adroddiad yn fanwl.

Adran 9 - Penderfyniadau

21. Rhaid i'r Comisiwn ymgorffori pob penderfyniad cyfredol mewn un ddogfen a chyhoeddi honno. Mae hyn yn rhoi argymhelliad 46 yn adroddiad y Panel ar waith.
22. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i benderfyniadau'r Bwrdd o dan adran 20(6), 24(1) neu 53(7) o'r Ddeddf fod mewn ysgrifen a chael eu cyfleu i Gomisiwn y Cynulliad.

Adran 10 - Arfer swyddogaethau mewn perthynas â chyflogau

23. Mae'r adran hon yn darparu na chaiff y Bwrdd wneud mwy nag un penderfyniad ynglŷn â chyflogau Aelodau'r Cynulliad ac un ynglŷn â chyflogau Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ar gyfer pob un o dymhorau pedair blynedd y Cynulliad (ond gweler paragraff 19 isod). Mae'r cyfyngiad hwn yn deillio o argymhelliad 11 yn adroddiad y Panel. Er hynny, caniateir i un penderfyniad arall ar gyflogau gael ei wneud cyn diwedd tymor os yw'r Bwrdd wedi'i fodloni bod yna amgylchiadau eithriadol sy'n peri ei bod yn deg ac yn rhesymol gwneud y penderfyniad. Er enghraifft, gallai "amgylchiadau eithriadol" (fel y dywedir yn argymhelliad 11) gynnwys newid arwyddocaol ym mhwerau'r Cynulliad.

24. Mae'r adran hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd wneud penderfyniadau, os yw'n rhesymol ymarferol gwneud hynny, cyn diwedd y tymor cyn y tymor y bwriedir i'r penderfyniad ddod i rym ynddo. Mae hyn yn rhoi ar waith y rhan honno o argymhelliad 11 yn adroddiad y Panel sy'n dweud y dylai Corff Adolygu Annibynnol gyfarfod am y tro cyntaf o leiaf chwe mis cyn y Cynulliad nesaf (sef erbyn Tachwedd 2010 fan bellaf) i benderfynu ar daliadau Aelodau'r Cynulliad. Yn hytrach na phennu cyfyngiad amser o chwe mis, mae'r adran hon yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Bwrdd ynglŷn ag amseru gwneud y penderfyniad gan ganiatáu i amgylchiadau eithriadol effeithio ar amser y penderfyniad ar gyflogau.
25. Rhaid i'r adran wneud darpariaeth fanwl sy'n diffinio ystyr "tymor" Cynulliad. Fel rheol, y cyfnod o bedair blynedd rhwng etholiadau cyffredinol y Cynulliad yw tymor Cynulliad. Er hynny, mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer etholiadau cyffredinol anghyffredin cyn diwedd y cyfnod hwnnw, o dan amgylchiadau penodol. Oni bai bod etholiad o'r fath yn cael ei gynnal lai na 6 mis o ddiwedd y tymor arferol fe fyddai etholiad cyffredinol cyffredin yn dal i gael ei gynnal ar ddiwedd y pedair blynedd gwreiddiol. Mae'r adran felly yn egluro na fyddai angen ail set o benderfyniadau ar gyflogau, mewn achos o'r fath, ar gyfer y cyfnod rhwng yr etholiad cyffredinol anghyffredin a'r etholiad cyffredinol cyffredin nesaf.

Adran 11 - Arfer swyddogaethau mewn perthynas ag ad-dalu costau a ysgwyddwyd wrth gyflogi staff

26. Os bydd y Bwrdd yn gwneud penderfyniad sy'n darparu ar gyfer ad-dalu costau a ysgwyddwyd gan Aelodau'r Cynulliad, neu gan grwpiau o Aelodau'r Cynulliad, wrth gyflogi staff, mae'r adran hon yn darparu na chaiff y Bwrdd wedyn ddiwygio'r penderfyniad hwnnw yn ystod y flwyddyn ariannol y daw'r penderfyniad i rym ynddi am y tro cyntaf. Gan hynny, dim ond un set o reolau ynglŷn â chostau cyflogi staff a all fod yn gymwys ym mhob blwyddyn ariannol.

Adran 12 - Arfer swyddogaethau: cyffredinol

27. Bydd yr adran hon yn sicrhau bod y Bwrdd yn cymryd i ystyriaeth yr argymhellion a wnaed yn adroddiad y Panel (gweler yn benodol argymhellion 11, 14 a 56) ac yn eu cymhwyso, oni bai bod rheswm da dros beidio, y tro cyntaf y bydd yn gwneud penderfyniad y mae unrhyw argymhelliad o'r fath yn berthnasol iddo. Os bydd y Bwrdd, wrth wneud penderfyniad o'r fath, yn penderfynu yn wahanol i argymhelliad perthnasol,

rhaid iddo ddatgan ei resymau dros y gwahaniaeth a chyfleu'r datganiad hwnnw i Gomisiwn y Cynulliad. Caiff y datganiad ei osod gerbron y Cynulliad.

28. Mewn penderfyniadau dilynol, fydd dim gofyn i'r Bwrdd roi sylw i argymhellion y Panel yn y penderfyniadau hynny, ond mae'n cael rhoi sylw iddyn nhw os yw'n dymuno. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y bydd yr argymhellion manwl a wnaed yn adroddiad y Panel yn cael eu disodli'n fwyfwy, wrth i amser fynd heibio, gan farn y Bwrdd ei hun a fydd yn cael ei hymgorffori yn ei benderfyniadau.

Adran 13 - Diwygio'r Ddeddf

29. Mae'r adran hon yn cyflwyno Atodlen 3 (gweler isod).

Adran 13A – Diwygio Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

- 30 Mae'r adran hon yn dod â'r Bwrdd o fewn y dosbarth o awdurdodau cyhoeddus sy'n dod o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.¹⁷

Adran 14 - Dehongli

31. Mae'r adran hon yn diffinio'r termau sy'n cael eu defnyddio yn y Mesur. Bydd i dermau sy'n cael eu defnyddio yn y Mesur ac sydd hefyd wedi'u defnyddio yn y Ddeddf yr un ystyr ag sydd iddyn nhw yn y Ddeddf.

Adran 15 - Darpariaeth drosiannol a darpariaeth arbed

32. Diben yr adran hon yw sicrhau y bydd penderfyniadau a wnaed gan y Cynulliad neu Gomisiwn y Cynulliad a chyfarwyddiadau a wnaed gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac sydd mewn grym ar hyn o bryd yn parhau mewn grym nes iddyn nhw gael eu diwygio neu eu disodli gan y Bwrdd. Yn ychwanegol, bydd yn galluogi cyfeiriadau at y Cynulliad, Comisiwn y Cynulliad ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn y penderfyniadau a'r cyfarwyddiadau hynny i gael eu dehongli fel cyfeiriadau at y Bwrdd (lle bo angen gwneud hynny er mwyn rhoi ei heffaith i adran 15(2)) heb fod angen diwygio pob cyfeiriad yn unigol.

Adran 16 - Enw Byr a Chychwyn

33. Mae'r adran hon yn nodi'r trefniadau ar gyfer cychwyn y Mesur.

¹⁷ Mae darpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn gymwys i'r Deyrnas Unedig gyfan. Er hynny, darpariaeth sy'n cynnwys Cymru a Lloegr yn unig a all gael ei gwneud gan Fesur Cynulliad. Effaith ymarferol y cyfyngiad hwn yw hyn: er y bydd unrhyw un yn y Deyrnas Unedig yn cael gwneud cais am wybodaeth oddi wrth y Bwrdd, byddai rhaid i gamau cyfreithiol yn erbyn y Bwrdd i orfodi hawliau o dan y Ddeddf gael eu cymryd yn llysoedd Cymru a Lloegr.

34. Mae adrannau 1, 3, 4, 5, 6, 7, 9, 14, ac adran 16 ei hun yn ymwneud â materion fel sefydlu'r Bwrdd ac aelodaeth y Bwrdd. Daw'r rhain i rym ar y diwrnod ar ôl i'r Mesur gael ei gymeradwyo gan Ei Mawrhydi yn y Cyngor.
35. Mae gweddill darpariaethau'r Mesur yn ymwneud â rhoi swyddogaethau i'r Bwrdd a sut mae'r rheiny i gael eu harfer. Ni chaniateir dod â'r rhain i rym nes bod holl aelodau'r Bwrdd wedi'u penodi. Gan hynny, daw'r darpariaethau hyn i rym ar y diwrnod ar ôl i hysbysiad sy'n cadarnhau bod y penodiadau wedi'u gwneud gael ei osod gerbron y Cynulliad gan Glerc y Cynulliad.

Atodlen 1

36. Er mwyn lleihau'r risg y bydd yna wrthdaro rhwng buddiannau, mae adran 3 a'r Atodlen hon yn darparu bod personau penodol wedi'u hanghymhwysio rhag bod yn aelodau o'r Bwrdd,¹⁸ sef Aelodau'r Cynulliad neu ymgeiswyr i'w hethol yn Aelodau o'r Cynulliad, aelodau o staff y Cynulliad neu Lywodraeth Cynulliad Cymru a phersonau sy'n cael eu cyflogi gan Aelodau o'r Cynulliad neu gan grŵp o Aelodau'r Cynulliad er mwyn helpu Aelodau o'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau Aelod o'r Cynulliad (er enghraifft staff cymorth sy'n cael eu cyflogi gan Aelodau o'r Cynulliad). Mae'r Cwnsler Cyffredinol (os nad yw'r person hwnnw'n Aelod o'r Cynulliad), Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chomisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'u hanghymhwysio hefyd. Mae'r rhestr o bersonau sydd wedi'u hanghymhwysio hefyd yn cynnwys Aelodau o Senedd Ewrop, Tŷ'r Cyffredin, Tŷ'r Arglwyddi, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Yn ychwanegol, chaiff person ddim bod yn aelod o'r Bwrdd os yw'n aelod o Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol Comisiwn y Cynulliad, yn Gyngorydd Annibynnol i Gomisiwn y Cynulliad, yn gyn aelod o'r Panel Cyntaf (gweler paragraff 4.2.1 uchod), y Panel (gweler paragraff 4.3.1 uchod), neu'n Gyfarwyddwr Anweithredol i Lywodraeth Cynulliad Cymru.
37. At ddibenion y Mesur hwn, mae person yn dod yn ymgeisydd i'w ethol yn Aelod o'r Cynulliad ar y diwrnod y datgenir bod y person hwnnw'n ymgeisydd neu y caiff ei enwebu'n ymgeisydd, p'un bynnag fydd gyntaf.
38. O dan y Ddeddf, gall lle gwag mewn sedd mewn rhanbarth etholiadol olygu bod person a oedd ar restr plaid ar gyfer y rhanbarth hwnnw yn yr etholiad

¹⁸ Mae adran 3 ac Atodlen 1 yn nodi'r personau hynny sydd wedi'u hanghymhwysio gan y gyfraith rhag bod yn aelodau o'r Bwrdd. Ond yn ychwanegol at hynny, bydd y rhai a fydd yn dethol darpar aelodau i'r Bwrdd yn cael cymryd i ystyriaeth, wrth bwysa a mesur a ydyn nhw'n addas, unrhyw gysylltiad ag Aelod o'r Cynulliad (megis perthynas deuluol) a allai arwain at wrthdrawiad buddiannau gwirioneddol neu dybiedig.

diwethaf yn llenwi'r lle gwag hwnnw heb etholiad, ac felly mae personau a allai ddod yn Aelodau o'r Cynulliad fel hyn hefyd wedi'u hanghymhwyso.

Atodlen 2

39. Mae'r Atodlen hon yn nodi rhagor o fanylion y trefniadau ar gyfer dethol ymgeiswyr i'w penodi'n Gadeirydd ac yn aelodau eraill o'r Bwrdd. Mae paragraff 1 yn ei gwneud yn ofynnol i Glerc y Cynulliad wneud y trefniadau angenrheidiol, ar ran Comisiwn y Cynulliad. Mae paragraff 2A yn ei gwneud yn ofynnol i Glerc y Cynulliad gyhoeddi manylion y weithdrefn ddewis, ar wefan y Cynulliad, cyn y broses ddewis.
40. Er mwyn lleihau'r risg y bydd yna wrthdaro rhwng buddiannau, mae paragraff 2 yn ei gwneud yn ofynnol i Glerc y Cynulliad sicrhau na chaiff neb y byddai arfer swyddogaethau'r Bwrdd yn effeithio arno (er enghraifft, Aelodau'r Cynulliad) gymryd rhan yn y broses ddethol. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Glerc y Cynulliad sicrhau bod y trefniadau'n rhoi sylw i gyfle cyfartal i bawb.
41. Mae paragraff 3 yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn y Cynulliad benodi pwy bynnag a gaiff ei ddethol drwy'r trefniadau hyn oni bai bod Comisiwn y Cynulliad o'r farn bod y person sydd wedi'i ddethol yn anghymwys o dan adran 3 ac Atodlen 1.

Atodlen 3

42. Mae'r Atodlen hon yn cynnwys diwygiadau i'r Ddeddf er mwyn gwireddu diben canolog y Mesur hwn, sef trosglwyddo'r rôl mewn penderfynu ar daliadau i Aelodau cyfredol y Cynulliad a chyn Aelodau'r Cynulliad a deiliaid swyddi ychwanegol o Gomisiwn y Cynulliad i'r Bwrdd. Mae'r adrannau o'r Ddeddf sy'n cael eu diwygio gan y Mesur hwn wedi'u nodi isod, yn eu ffurf ddiwygiedig:

20 *Remuneration of Assembly members*

- (1) *Provision must be made for the payment of salaries to Assembly members.*
- (2) *Provision may be made for the payment of allowances to Assembly members.*

- (3) *Provision may be made for the payment of pensions, gratuities or allowances to, or in respect of, any person who-*
- (a) *has ceased to be an Assembly member, or*
 - (b) *has ceased to hold office as the Presiding Officer or Deputy Presiding Officer, or such other office in connection with the Assembly as the Assembly may determine, but continues to be an Assembly member.*
- (4) *Such provision may, in particular, include provision for-*
- (a) *contributions or payments towards provision for such pensions, gratuities or allowances, and*
 - (b) *the establishment and administration (whether by the Assembly Commission or otherwise) of one or more pension schemes.*
- (5) *Sums required for the making of payments by virtue of provision under subsection (1) or (3) to or in respect of a person who holds or has held the office of Presiding Officer or Deputy Presiding Officer are to be charged on the Welsh Consolidated Fund.*
- (6) *Provision under this section is to be made by determination made by the Board.*
- (7) *The Assembly Commission must give effect to any determination made by the Board under this section.*
- (8) *In this section (and in sections 22, 24, 53 and 54) “the Board” means the National Assembly for Wales Remuneration Board established by section 1 of the National Assembly for Wales (Remuneration) Measure 20-- (nawm 20-- -).*

22 Remuneration: supplementary

- (1) *Different provision may be made under section 20 or 21 for different cases.*
- (2) *The Assembly Commission must ensure that information concerning-*
- (a) *the amounts paid to each Assembly member as salary and allowances, and*

(b) *the total amount paid to Assembly members as salaries and allowances,*

is published for each financial year.

(3) *The Assembly Commission must lay before the Assembly every determination made by the Board under section 20(6) as soon as is reasonably practicable after it is made.*

(4) *For the purposes of sections 20 and 21 a person who-*

(a) *ceases to be an Assembly member when the Assembly is dissolved, but*

(b) *is nominated as a candidate at the subsequent general election,*

is to be treated as an Assembly member until the end of the day on which the poll at the election is held.

(5) *Where a person-*

(a) *ceases to be an Assembly member when the Assembly is dissolved, but*

(b) *continues to hold office as Presiding Officer or as a member of the Assembly Commission by virtue of paragraph 1(1) or (2) of Schedule 2,*

the fact that the person is no longer an Assembly member does not affect any entitlement under sections 20 and 21 in respect of the holding of office as Presiding Officer or as a member of the Assembly Commission (or both) until the end of the day on which the person ceases to hold it.

(6) *Provision made under section 20(3) does not affect pensions or allowances in payment before the provision was made.*

24 Assistance to groups of Assembly members

(1) *The Assembly Commission must make to (or in respect of) political groups to which Assembly members belong such payments as the Board from time to time determines for the purpose of assisting*

Assembly members who belong to those political groups to perform their functions as Assembly members.

- (2) *A determination under subsection (1) may make provision-*
 - (a) *for calculating the amount of any payment to (or in respect of) a political group,*
 - (b) *for the conditions subject to which payments to (or in respect of) a political group are to be made, and*
 - (c) *for claims for such payments to be made to the Assembly Commission.*
- (3) *A determination under subsection (1) may make different provision for different political groups.*
- (4) *...¹⁹*
- (5) *The standing orders must include provision for determining for the purposes of this Act whether any Assembly member belongs to a political group and, if so, to which; and (in particular)—*
 - (a) *may include provision for treating an Assembly member as not belonging to a political group unless a specified number of Assembly members belong to it, and*
 - (b) *must include provision requiring the Presiding Officer to decide any questions arising under the provision included by virtue of this subsection.*
- (6) *The Assembly Commission must lay before the Assembly every determination made by the Board under section 24(1) as soon as is reasonably practicable after it is made.*
- (7) *The Assembly Commission must ensure that information concerning the sums paid under this section is published for each financial year.*

53 Remuneration

- (1) *Provision must be made for the payment of salaries to persons to whom this section applies.*

¹⁹ The whole of Section 4(4) is omitted by the Measure

- (2) *Provision may be made for the payment of allowances to persons to whom this section applies.*
- (3) *Provision may be made for the payment of pensions, gratuities or allowances to, or in respect of, any person who has ceased to be a person to whom this section applies.*
- (4) *Such provision may, in particular, include provision for—*
 - (a) *contributions or payments towards provision for such pensions, gratuities or allowances, and*
 - (b) *the establishment and administration (whether by the Assembly Commission or otherwise) of one or more pension schemes.*
- (5) *This section applies to—*
 - (a) *the First Minister,*
 - (b) *every Welsh Minister appointed under section 48,*
 - (c) *the Counsel General, and*
 - (d) *every Deputy Welsh Minister.*
- (6) *Sums required for the making of payments by virtue of provision under this section are payable out of the Welsh Consolidated Fund.*
- (7) *Provision under this section is to be made by determination made by the Board.*
- (8) *The Assembly Commission must give effect to any determination made by the Board under this section.*

54 Remuneration: supplementary

- (1) *Different provision may be made under section 53 for different cases.*
- (2) *The Assembly Commission must ensure that information concerning—*

- (a) *the amounts paid to each person to whom section 53 applies as salary and allowances, and*
- (b) *the total amount paid to such persons as salaries and allowances,*

is published for each financial year.

- (3) *The Assembly Commission must lay before the Assembly every determination made by the Board under section 53(7) as soon as is reasonably practicable after it is made.*
- (4) *Provision made under section 53(3) does not affect pensions or allowances in payment before the provision was made.*